# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Mehefin 2023

Amser: 13.30 - 15.51

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13370

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o’r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>James Evans AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Sesiwn dystiolaeth gyda Swyddfa’r Farchnad Fewnol

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Swyddfa’r Farchnad Fewnol.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 3.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 3.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd a’r Gweinidog Newid Hinsawdd Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 3.3 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd: Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a’r llythyr gan y Gweinidog.

### 3.4 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a’r llythyr gan y Gweinidog.

### 3.5 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a’r llythyr gan y Gweinidog. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i dderbyn cynnig y Gweinidog i rannu gwybodaeth am yr Adran dros Fusnes a Masnach â’r Pwyllgor.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Sefydliad Bevan i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Bil Mudo Anghyfreithlon

Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig.

### 4.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Amgylchedd Bwyd Iach

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Weinidog a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i ofyn am eglurhad ar nifer o faterion yn dilyn datganiad y Dirprwy Weinidog ar 27 Mehefin ac yn amodol ar y datganiad hwnnw.

## 5 Gohebiaeth yn ymwneud â Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Sesiwn dystiolaeth gyda Swyddfa’r Farchnad Fewnol: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth a gafwyd gan Swyddfa’r Farchnad Fewnol.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Mudo Anghyfreithlon

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i drafod rhai mân newidiadau y tu allan i'r cyfarfod.

## 10 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Diogelwch Ar-lein

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Diogelwch Ar-lein, a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

## 11 Cytundebau rhyngwladol

Nododd y Pwyllgor y cytundebau rhyngwladol a ganlyn:

- y DU a Sbaen: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth Gilyddol a Chyfnewid Trwyddedau Gyrru Cenedlaethol ac ar Gyfnewid Gwybodaeth am Droseddau Traffig Cysylltiedig â Diogelwch Ffyrdd

- y DU a Ffrainc: Cytundeb ynghylch ardystio diogelwch mewn cysylltiad â gwasanaethau trafnidiaeth rheilffyrdd drwy Gysylltiad Sefydlog y Sianel Link

Cytunodd y Pwyllgor i drafod ei adroddiad drafft ar y cytundebau mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i dynnu sylw pwyllgor perthnasol yn y Senedd at y cytundeb rhyngwladol cyntaf.

## 12 Trafod gohebiaeth yn ymwneud â Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth yn ymwneud â Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Made Negative Resolution Instruments

Made Negative Resolution Instruments

Affirmative Resolution Instruments